Cynigion ar gyfer

Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CPS 2011-14

Dogfen Ymgynghoriad Cyhoeddus

Gwasanaeth Erlyn y Goron
Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cynnwys

1	Cyflwyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus	3
2	Cyflwyniad – Y Ddeddfwriaeth	5
3	Ynglŷn â'r CPS a'n datganiad am gydraddoldeb ac amrywiaeth	7
4	Ein cynigion parthed cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol	10
5	Sut rydym yn cynnwys ac yn ymgynghori â phobl parthed ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth	11
6	Ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth	12

Atodiad

A	Aelodaeth o Grŵp Ymgynghori Deddf Cydraddoldeb y CPS	26
B	Aelodaeth o'n Fforwm Atebolrwydd Cymuned	27
C	Egluro'r termau a rhestr o'r talfyriadau	28

1 Cyflwyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Rydym yn falch o gyflwyno'r ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2011-14. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn dadlennu sut rydym am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cyffredinol newydd ar gyfer y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau penodol.

Rydym yn gofyn am eich sylwadau chi ar ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn cyhoeddi ein hamcanion terfynol yn sgil yr ymgynghoriad hwn.

Wrth benderfynu pa gynigion y dylid eu cyflwyno yn yr amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth byddwn yn

- ystyried canlyniadau cysylltiad y gymuned a'r staff yn yr ymgynghoriad;
- bwrw ymlaen gyda'n hymrwymiadau i'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2010-11, fel y bo angen; ac yn
- ystyried blaenoriaethau yng Nghynllun Busnes corfforaethol y CPS ar gyfer 2011-12 ac unrhyw flaenoriaethau eraill gan y llywodraeth.

Nodir isod y prif gwestiynau yr hoffem ichi fynegi barn arnynt:

- Ai'r amcanion cydraddoldeb fel y gosodwyd hwynt yn adran 6 ar dudalen 13 ymlaen yw'r rhai cywir; a ydynt yn glir ac yn adlewyrchu yr hyn sydd ei angen ar wasanaeth erlyn teg?
- A yw'r dulliau o weithredu er mwyn cyrraedd yr amcanion hyn y rhai cywir?
- A yw'r mesurau yn addas ac yn berthnasol?

1.1 Ymgynghoriad trwy gwblhau cwestiynau o fewn y ddogfen hon

Mae blwch ar ddiwedd pob un o'n hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eich adborth chi. Byddwch cystal â nodi eich ymateb yn y blychau hyn. Wedi ichi orffen ymateb, anfonwch y ddogfen at:

mailto:equality.objectives@cps.gsi.gov.uk
e-bostiwch at:cydraddoldeb.amcanion @cps.gsi.gov.uk

1.2 Ymgynghoriad trwy ddefnyddio'r we

Gallwch gael mynediad i'r ddogfen hon ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/consultations/equality_diversity_objectives.html
http://www.cps.gov.uk/ymgynghoriadau/cydraddoldeb_amrywiaeth.html

Byddwch cystal â chwblhau'r blwch ar ddiwedd pob un o'n hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth (o dudalen 13 ymlaen) ac anfonwch yn ôl atom trwy e-bostio at:

mailto:equality.objectives@cps.gsi.gov.uk
e-bostiwch at:cydraddoldeb.amcanion @cps.gsi.gov.uk

1.3 Ymgynghoriad trwy'r post

Gallwch bostio eich ymateb gorffenedig i'r cyfeiriad a ganlyn:

Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HS

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn y cyfeiriad hwn, neu ffonio 020 3357 0552, os hoffech chi gopi caled o'r ddogfen ymgynghoriad trwy'r post.

1.4 Dyddiad cau yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad ar ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2011-14 yn cau am 5pm 5ed Rhagfyr 2011. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymateb a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

1.5 Fformatau eraill

Gellir cael y ddogfen hon mewn Easy Read a phrint bras ar eich cais. Anfonwch e-bost at mailto:equality.objectives@cps.gsi.gov.uk
e-bostiwch at:cydraddoldeb @cps.gsi.gov.uk
neu ffonio : 020 3357 0552, neu ffacs: 020 3357 0567.

Dylid nodi y byddwn yn ystyried bod eich ymateb yn eiddo i'r cyhoedd oni bai ei fod wedi nodi fel darn cyfrinachol. Gellir cyhoeddi'r ymatebion neu eu datgelu trwy fynediad i wahanol fathau o wybodaeth megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud pob ymdrech i ymgynghori gyda chi cyn datgelu unrhyw wybodaeth os daw cais o'r math hwn i law.

2 Cyflwyniad – Y ddeddfwriaeth

Mae'r adran hon yn nodi gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â dyletswyddau cyffredinol a phenodol y sector cyhoeddus.

2.1 Dyletswydd Cyffredinol

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd cyffredinol' ar bob corff cyhoeddus a ddaw dan ddeddfwriaeth Y Ddeddf i dalu'r sylw dyledus i'r angen i:

- gael gwared ar anghydraddoldeb anghyfreithlon, aflonyddwch ac erledigaeth;
- hyrwyddo cyfleodd cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a
- meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol.

Cyfeirir at y dair elfen o'r dyletswyddau cyffredinol a roddir ar ysgwyddau awdurdodau cyhoeddus fel 'dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb'. Corff cyhoeddus yw'r CPS yn nhermau ystyr Y Ddeddf ac felly mae ganddo ddyletswydd i hybu cydraddoldeb ar draws pob grŵp sydd â 'nodweddion gwarchodedig'.

Y nodweddion gaiff eu hamddiffyn dan Y Ddeddf yw:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw a
- chyfeiriadedd rhywiol.

2.2 Dyletswyddau Penodol

Mae Rheoliadau Deddf Gydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) yn manylu ar y dyletswyddau penodol sydd yn berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 i'r rheoliadau. Gan mai awdurdod cyhoeddus yw'r CPS ac yn ateb i'r dyletswyddau hyn rhaid i'r corff:

2.2.1 Amcanion Cydraddoldeb

- Baratoi a chyhoeddi un amcan neu fwy oddi mewn i'r terfynau amser a nodwyd gan y dyletswyddau penodol ac yn dilyn hyn mewn cyfnodau o ddim mwy na phedair blynedd, gan ddechrau gyda dyddiad y cyhoeddiad diweddaraf.

- Rhaid i'r nodau hyn fod yn benodol a mesuradwy.

2.2.2 Cyhoeddi Gwybodaeth

- Cyhoeddi gwybodaeth i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswydd cyffredinol oddi mewn i'r terfynau amser a nodwyd gan y dyletswyddau penodol ac yn dilyn hyn mewn cyfnodau o ddim mwy na phedair blynedd, gan ddechrau gyda dyddiad y cyhoeddiad diweddaraf.

- Rhaid i'r wybodaeth a gyhoeddir gynnwys, yn benodol, gwybodaeth berthnasol i bobl sydd yn rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol sydd:

    - Yn gyflogai
    - Yn bobl eraill a gânt eu heffeithio gan ei bolisïau ac ymarferion

- Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi yn y fath fodd fel ei bod ar gael i'r cyhoedd.

3 Am y CPS a'n datganiad am gydraddoldeb ac amrywiaeth

3.1 Beth rydyn ni'n ei wneud

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer achosion troseddol yn Lloegr a Chymru. Wrth weithredu y swyddogaeth hon, mae'r CPS yn:

- cynghori'r heddlu yn ystod camau cyntaf ymchwiliadau;
- pennu'r cyhuddiadau addas mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth;
- cadw pob achos dan adolygiad parhaol ac yn penderfynu pa achosion y dylid eu herlyn;
- paratoi achosion ar gyfer erlyniad ac yn erlyn achosion gan ddefnyddio dadleuwyr mewn-tŷ, dadleuwyr hunan-gyflogedig neu asiantau i gyflwyno achosion mewn llys;
- cynnig gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

3.2 Golwg ar y sefydliad

Mae strwythur y CPS fel a ganlyn:

- Pennaeth y CPS yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus;
- Uwch arolygwr y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw y Twrnai Cyffredinol, sydd yn atebol i'r Senedd am y CPS;
- Pennaeth Gweinyddiaeth yw'r Prif Weithredwr;
- mae'r CPS wedi ei drefnu yn 13 ardal ar draws Lloegr a Chymru. Caiff pob ardal ei harwain gan Brif Erlynydd y Goron gyda chefnogaeth gan Reolwr Busnes yr Ardal;
- mae dau grŵp achosion arbenigol – Grŵp Twyll Canolog a Grŵp Troseddau Difrifol - yn delio gydag erlyn pob achos yr ymchwilir iddynt gan yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Asiantaeth Ffiniau y DU a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ogystal â throseddau difrifol, terfysgaeth, twyll ac achosion heriol eraill sydd yn galw am brofiad arbenigol;
- mae gwasanaeth allan-o-oriau, CPS Direct, a thrwy hwn gall yr heddlu gysylltu â'r CPS am gyngor ar achosion y tu allan i oriau arferol swyddfa;
- cyflogir tua 8,448 o bobl gan y CPS; ac
- yn y flwyddyn galendr 2010, roedd y CPS wedi erlyn 967,494 o ddiffynyddion; deliwyd gyda 850,112 mewn Llysoedd Ynadon a 117,382 yn Llysoedd y Goron. Roedd gan Lysoedd Ynadon gyfradd lwyddiannus o 86.5% o gollfarnau a Llysoedd y Goron gyfradd lwyddiannus o 79.9%.

Ceir gwybodaeth bellach am y CPS ar www.cps.gov.uk neu drwy ysgrifennu at: Yr Uned Ohebiaeth, Gwasanaeth Erlyn y Goron, 2 Southwark Bridge, Llundain SE1 9HS, neu drwy ffonio 020 3357 0899 (gall y galwadau gael eu recordio). Fel arall gallwch e-bostio ymholiadau at enquiries@cps.gsi.gov.uk ymholiadau@cps.gsi.gov.uk

3.3 Ein datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein nod, fel yr amlinellir yn ein datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yw bod yn wasanaeth erlyn sydd yn gwneud ei waith yn deg ac yn dryloyw, yn mynd i'r afael â rhwystrau ac anghyfartaledd yn effeithiol ac yn gweithio gyda rhan ddeiliaid a'r cyhoedd i wella ein hymarferion fel y gallwn sicrhau erlyniadau o ansawdd uchel, amgylchedd gwell i weithio ynddo a gwell cyfiawnder i bawb.

Mae Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (Y Cod) yn rheoli sut rydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch erlyn achosion. Cydraddoldeb sydd wrth wraidd egwyddorion cyffredinol y Cod. "Mae erlyn teg ac effeithlon yn hanfodol os am gynnal cyfraith a threfn. Dyletswydd erlynwyr yw sicrhau bod y person cywir yn cael ei erlyn am y drosedd gywir ac i ddwyn troseddwyr i gyfraith ble bynnag y bo hynny yn bosibl. Mae penderfyniadau teg ar achosion, wedi eu trin yn deg, yn ddiduedd a gyda gonestrwydd, yn helpu sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, i dystion, i diffynyddion a'r cyhoedd."

Er mwyn sicrhau bod ein busnes dyddiol a'r dyletswyddau a nodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn cael eu gweithredu gan yr egwyddorion a geir yn Y Cod, byddwn yn ymwreiddio cydraddoldeb yn ein cynlluniau, ein penderfyniadau a'n gweithrediadau mewn perthynas â'n herlyniadau a'n hymarfer cyflogaeth. Mae'r deddfau ar gydraddoldeb yn mynnu ein bod yn gwneud hyn; fodd bynnag, rydym hefyd yn derbyn rhwymedigaethau moesol, oherwydd mai dyna yw'r peth iawn i'w wneud ac oherwydd na fedrwn anelu at fod yn gymdeithas gyfiawn heb geisio bod yn gymdeithas decach.

Trwy gynyddu tryloywder a chraffu manwl ar ein dulliau o ymdrin â phobl. Sut rydym yn erlyn trosedd a sut rydym yn gweithio ar y cyd â chymunedau, byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb yn dal wrth wraidd busnes y CPS. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein **Safonau Ansawdd Craidd (CQS**) sydd yn manylu ar y safonau perfformiad a ddisgwylir ymhob agwedd o'n gwaith.

I'r CPS, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn fwy na chwrdd â'n anghenion statudol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan hanfodol o sicrhau erlyniadau teg, o gynnal arferion cyflogaeth teg a chynyddu hyder yr holl gymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o edrych ar amryw nodweddion o bersbectif y dioddefwyr, y tystion a'r diffynyddion a all berthyn i sawl cymuned wahanol. Er enghraifft, bydd effaith trosedd o gasineb ar ddyn du anabl neu effaith trais yn y cartref ar ddyn hoyw yn aml haenog a chymhleth. Er mwyn annog pobl o'r amrywiol gymunedau i dynnu sylw'r awdurdodau at droseddau, i roi eu tystiolaeth orau ac i aros gyda'r broses erlyn tan y diwedd, mae gofyn i'r CPS ymateb i natur gymhleth y ffordd mae gwahanol bobl yn gweld trosedd a'r effaith wahanol y gall troseddau ei gael ar eu bywydau

Rydym yn cydnabod yr angen am arweiniad a'r angen i adnabod beth medrwn ni ei wneud i newid er gwell. Mewn perthynas ac anabledd, bydd hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar y rhwystrau cymdeithasol/sefydliadol sydd yn creu anfanteision ac yn gwrthod hawliau i bobl oherwydd eu diffygion. Felly ein hamcan cydraddoldeb yw sicrhau bod pob dioddefwr a thyst yn cael yr un mynediad i gyfiawnder trwy chwalu unrhyw rwystrau all sefyll yn y ffordd. Gall y rhwystrau hynny fod yn rhai corfforol neu rwystrau o ran agwedd. Gallant godi oherwydd canfyddiad, rhagfarn neu anwybodaeth neu gallant fodoli oherwydd diwylliant sefydliadol.

3.4 Ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth a Chynllun Busnes y CPS

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o gynllun busnes y CPS ac mae'r amcanion hyn yn cefnogi'r prif flaenoriaethau oddi mewn i Gynllun Busnes y CPS 2011-12.

3.5 Gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol

Rydym wedi ymrwymo i ymwneud â, i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth gyda'r sectorau cymunedol a gwirfoddol wrth ddatblygu ein polisïau ac i wella ein hymarferion mewn perthynas ac erlyniadau a chyflogaeth. Trwy ein hymwneud â hwy yn y gorffennol rydym yn gwybod bod talu sylw i awgrymiadau ein partneriaid yn y gymuned yn help i ni sicrhau ein bod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau ein cymunedau yn ein polisïau a'n hymarferion.

3.6 Rhagor am gydraddoldeb ac amrywiaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir cael gwybodaeth bellach am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y CPS trwy'r cyswllt a ganlyn:

http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html
http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/cydraddoldeb/mynegai.html

Mae'r cyswllt isod yn cynnig gwybodaeth bellach ar ein polisïau erlyn gan gynnwys troseddau casineb, homoffobig a thrawsffobig, troseddau a sbardunwyd gan hil a chrefydd, troseddau oherwydd anabledd a throseddau yn erbyn pobl oedrannus yn ogystal â pholisïau parthed trais yn erbyn menywod. Mae rhychwant hefyd o bolisïau eraill gan gynnwys y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron a pholisïau mewn perthynas â dioddefwyr a thystion.

http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/index.html
http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/erlyn/mynegai.html

4 Ein cynigion parthed cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol

4.1 Cyhoeddi gwybodaeth

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth hygyrch am ein gwasanaeth a'n cyflogaeth i ddangos ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyffredinol ar draws ein meysydd gweithredu a hynny erbyn y dyddiad a benodwyd ac yn flynyddol wedi hynny. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fel byddo'r cyhoedd yn gallu ein dal i gyfrif parthed ein Safonau Ansawdd Craidd. Felly croesewir cyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb:

Byddwn yn cyhoeddi ystod o wybodaeth am gydraddoldeb perthnasol i:

- Ein gweithlu
- Ein gwasanaethau

Mae rhwymedigaethau adnoddau ynghlwm wrth gasglu data sydd yn hygyrch a byddwn yn ystyried hyn wrth gynllunio am amserlennu unrhyw anghenion data ychwanegol.

4.2 Amcanion Amcanion Cydraddoldeb

Ceir manylion llawn am ein hamcanion cydraddoldeb o dudalen 12 ymlaen. Datblygwyd y rhain trwy'r Grŵp Ymgynghori ar Ddeddf Cydraddoldeb y CPS sydd yn cynnwys ein partneriaid cymunedol a chynrychiolwyr o'n rhwydweithiau staff. Ceir manylion am Aelodaeth y Grŵp yn Atodiad A. Mae ein hamcanion wedi eu cymeradwyo gan Fforwm Atebolrwydd Cymuned sydd yn cynnwys partneriaid yn y gymuned a chynrychiolwyr o'n rhwydweithiau staff. Ceir manylion am Aelodaeth y Grŵp hwn yn Atodiad B. Byddwn yn adolygu a diweddaru ein hamcanion o leiaf pob pedair blynedd. Cyhoeddir y rhain erbyn y dyddiad a bennwyd.

4.3 Craffu ar ein Hamcanion Cydraddoldeb

Bydd ein Fforwm Atebolrwydd Cymuned yn craffu ar gynnydd ein hamcanion cydraddoldeb yn genedlaethol. Yn ystod 2012 byddwn yn gweithredu rhaglen o graffu ar gyfer ein Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.

4.4 Asesu Effeithiau Cydraddoldeb

Bydd y CPS yn asesu effeithiau cydraddoldeb er mwyn dadansoddi effeithiau ein polisïau a'n hymarferion ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae'r CPS wedi adolygu ei weithdrefn asesu effeithiau cydraddoldeb. Caiff hyn, ynghyd ag arweiniad, ei ddosbarthu ledled y sefydliad yn ystod 2010. Er hyn, byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau ymhellach er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau cydraddoldeb newydd.

5 Sut rydym yn ymglymu ac yn ymgynghori â phobl parthed ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Trwy ddweud ymglymu rydym yn cynnwys rhan ddeiliaid o gychwyn cyntaf ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth.Trwy ymgynghoriad rydym yn gofyn am farn pobl am ein cynigion er mwyn eu cynnwys yn ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

5.1 Sut rydym yn ymglymu gyda ac yn ymgynghori â chymunedau

- Rydym wedi sefydlu Grŵp Ymgynghori Deddf Cydraddoldeb y CPS; mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau cymunedol a'n rhwydweithiau staff er mwyn dechrau datblygu ein hamcanion.

- Yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus, rhoddir cyfle i aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol gynnig adborth a sylwadau ar ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy e-bost neu trwy'r post.

- Byddwn yn e-bostio dogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus at bob sefydliad cymunedol a gwirfoddol ar fas data Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS gyda gwahoddiad iddynt gyflwyno eu sylwadau.

- Mae'r Fforwm Atebolrwydd Cymuned wedi cefnogi ein hamcanion arfaethedig a byddwn yn ymgynghori yn llawn â hwy ar y ddogfen gyflawn fel rhan o ymgynghoriad ehangach.

5.2 Sut rydym yn ymglymu ac yn ymgynghori gyda staff

- Rydym wedi cynnwys cynrychiolwyr ein Rhwydweithiau Staff a'r DTUS wrth ddatblygu ein hamcanion.

- Ymgynghoriad staff ar-lein - Gall staff y CPS logio mewn i'r ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad hwnnw ac anfon eu sylwadau trwy e-bost.

5.3 Ymgynghoriad arall

Byddwn yn ymgynghori hefyd gyda'n partneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol a phartneriaid perthnasol eraill.

6 Ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwelir, yn y tablau isod, ein hamcanion arfaethedig, gweithrediadau a mesurau ar gyfer eu cynnwys yn ein Hamcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2011-14.

Amcan 1

I sicrhau bod y CPS yn cwrdd yn gyson â'i rwymedigaethau cydraddoldeb yn y modd y mae yn datblygu ac yn cyflwyno y polisïau a'r ymarferion sydd yn effeithio at ein swyddogaethau cyhoeddus, hynny yw erlyniadau, staff a strwythur gweithredu.

Dull hanfodol o sicrhau ein bod yn cyrraedd ein hamcanion cydraddoldeb yw i gynnal y craffu allanol ac ymglymiad ein cymunedau er mwyn asesu pa mor llwyddiannus yr ydym wrth gyrraedd ein hamcanion cydraddoldeb. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i'n gwybodaeth a'n data fod yn hygyrch a thryloyw fel y gall cymunedau wneud asesiad gwrthrychol a chywir o'n llwyddiant. Mae grymuster methodoleg ein Hasesiad Effeithiau Cydraddoldeb (EiA) ac effeithlonrwydd ein staff wrth weithredu asesiadau ar effeithiau cydraddoldeb ar ein polisïau a'n hymarferion yn elfen hanfodol wrth sicrhau cydraddoldeb wrth gyflenwi gwasanaethau a chyflogaeth.

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir/Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
1.1	I gynnal dulliau craffu allanol cydymffurfio y CPS gyda'i amcanion cydraddoldeb trwy'r Fforwm Atebolrwydd Cymuned	√	√	√	Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn sgil y craffu
1.2	Sefydlu Panel Craffu Cenedlaethol i graffu ar faterion o bwys cenedlaethol gan gynnwys troseddau casineb ac achosion VAW er mwyn adnabod y prif wersi a ddysgwyd ac ymarfer gorau; ac i fwydo mewn i ddatblygu polisi cenedlaethol lle bo hynny yn addas	√			Gweithredu llwyddiannus ar argymhellion y Panel Craffu Cenedlaethol
1.3	Datblygu ymglymiad Ardaloedd Lleol a Phaneli Craffu er mwyn cynnwys cymunedau lleol wrth gynllunio yn lleol ac wrth ddadansoddi data trwy adeiladu ar brofiad y Paneli Craffu troseddau Casineb a	√	√	√	Gweithredu llwyddiannus ar argymhellion y Panel Craffu Cenedlaethol ac Ymglymiad yr Ardaloedd Lleol

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir/Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
phaneli Ymglymiad Cymunedau				
1.4 Parhau i fesur a sicrhau cyflwyno ymrwymiadau ymglymiad cymunedol y CPS a geir Safon Ansawdd Craidd 12	√	√	√	Canlyniadau Asesiadau Safonau Ansawdd Craidd 12
1.5 Parhau i wella ymwybyddiaeth o faterion Traws i erlynwyr trwy sesiynau a gynhelir mewn partneriaeth gyda hwyluswyr cymunedau	√			Gwerthuso sesiynau
1.6 Adolygu arweiniad Asesiad Cydraddoldeb yng ngoleuni'r dyletswyddau newydd	√			Gweithredu llwyddiannus o'r arweiniad a adolygwyd
1.7 Parhau i gynnig hyfforddiant cyson i staff allweddol ar effeithiau Asesiad Cydraddoldeb a gwerthuso effeithlonrwydd hyfforddiant	√	√	√	Gwerthuso hyfforddiant
1.8 Parhau i weithredu EiAs o bob polisi a phroses berthnasol a chyhoeddi'r canlyniadau ar wefan y CPS	√	√	√	Gorffen a chyhoeddi yr EiAs
1.9 Datblygu Datganiad Hygyrchedd cyhoeddus y CPS	√			Cyhoeddi a gweithredu yn llwyddiannus y Datganiad Hygyrchedd
1.10 Adolygu Datganiad Disgwyliadau CPS y Bar i adlewyrchu yr holl a datblygiad paneli eiriolaeth y CPS a sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o broses dethol y panel eiriolwyr	√			Cytuno ar y Datganiad Adolygedig a'i osod mewn lle

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir/Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
1.11 Datblygu cynllun gweithredu i ymdrin â materion anghydraddoldeb	√			Cytuno ar a gweithredu'r cynllun

Cwestiwn ar gyfer Amcan 1

- A yw'r amcan cydraddoldeb fel y gosodwyd ef uchod i sicrhau bod y CPS yn rhoi'r sylw haeddiannol i'r rhwymedigaethau cydraddoldeb yn y dull y mae'n datblygu polisïau ac ymarferion yn addas ac yn berthnasol?
- A yw'r amcan yn glir?
- A yw'r deddfau i gyrraedd yr amcanion y rhai cywir ar gyfer gwasanaeth erlyn?
- A yw'r mesurau yn addas ac yn berthnasol?
- A oes gennych chi sylwadau pellach?

Amcan 2

I wella ein lefel llwyddiant wrth erlyn Troseddau Casineb (gan gynnwys troseddau homoffobig a thrawsffobig, troseddau a sbardunwyd gan hil a chrefydd, troseddau oherwydd anabledd) a throseddau yn erbyn pobl oedrannus yn ogystal â pholisïau parthed trais yn erbyn menywod (VAW) ac i sicrhau gwasanaeth effeithlon ar gyfer dioddefwyr a thystion

Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn achosion o droseddau casineb a throseddau yn erbyn menywod - gall y ddau fath gael effaith difrifol a hirdymor ar ddiogelwch y dioddefwr a bodlonrwydd a hyder cyhoeddus yn y system cyfiawnder troseddol. Mae cefnogaeth dringar ac effeithiol i ddioddefwyr a thystion mewn achosion o droseddau casineb a Thrais yn erbyn Menywod yn hanfodol os ydym i erlyn yn effeithiol mewn achosion o'r math hwn ac os am ennill hyder dioddefwyr a thystion i adrodd am droseddau o'r math a chefnogi'r broses o erlyn.

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir/ Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
2.1	Parhau i hyfforddi erlynwyr ar droseddau VAW a throseddau casineb	√	√	√	Gwerthuso hyfforddiant
2.2	Monitro achosion o annog casineb hiliol, casineb oherwydd crefydd a chasineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol	√	√		Dadansoddi data a gweithredu ar anghyfartaledd a gydnabuwyd
2.3	Gweithredu argymhellion perthnasol i'r CPS sy'n codi o ymchwiliad cyhoeddus y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar faterion yn ymwneud ag aflonyddwch oherwydd anabledd	√	√	√	Gweithredu'r argymhellion yn llwyddiannus

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir/ Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
2.4	Adolygu trefniadau cydweithio rhwng yr heddlu a'r CPS mewn perthynas â throseddau casineb a VAW	√			Gorffen yr adolygiad
2.5	Adolygu swyddogaeth a chyfrifoldebau Cydlynwyr Troseddau Casineb a VAW	√			Gweithredu'r swyddogaethau a adolygwyd
2.6	Datblygu arweiniad ar ddulliau gwahanol o gyfathrebu gyda pobl ac anghenion gwahanol	√			Cyflwyno a gweithredu arweiniad
2.7	Ystyried gweithredu'r argymhellion sydd yn codi o ymchwil y CPS i'r defnydd o Fesurau Arbennig ar gyfer dioddefwyr a thystion	√	√		Cytuno ar a gweithredu'r argymhellion
2.8	Datblygu ymglymiad lleol a phaneli craffu	√	√	√	Paneli mewn lle
2.9	Gweithredu elfennau trawslywodraethol y CPS ar VAW a throseddau casineb	√	√	√	Ymrwymiadau y CPS wedi eu cyflwyno Mesurau Cyffredinol: Cyfraddau edifeirwch ar gyfer troseddau casineb Cyfraddau edifeirwch ar gyfer troseddau VAW a data o system gwarantu VAW Cyfranogiad dioddefwyr a

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir/ Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
				thystion mewn erlyniadau – lleihad yn y dileu a "methu mynychu" gan dioddefwyr

Cwestiynau ymgynghori ar gyfer Amcan 2

- A yw'r amcan cydraddoldeb fel y gosodwyd ef uchod yn addas ar gyfer gwella erlyn troseddau casineb a VAW?
- A yw'r amcan yn glir?
- A yw'r deddfau i gyrraedd yr amcanion y rhai cywir ar gyfer gwasanaeth erlyn?
- A yw'r mesurau yn addas ac yn berthnasol?
- A oes gennych chi sylwadau pellach?

Amcan 3

I sicrhau bod y CPS yn casglu ac yn cyhoeddi data o ansawdd uchel ar draws pob un o'r nodweddion gwarchodedig mewn perthynas ag ymarferion a pholisïau cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

Mae data amserol a chywir yn hanfod allweddol mewn dadansoddi a gwneud penderfyniadau effeithiol er mwyn sicrhau cydraddoldeb cyfle a chanlyniad boed hynny mewn perthynas â'r gwasanaethau rydym yn eu darparu neu ein polisïau a'n hymarferion cyflogaeth. Bydd data perthnasol o ansawdd da yn ein galluogi i adnabod anghyfartaleddau posibl ac i ddatblygu gweithredoedd i ymdrin ac anghyfartaledd direswm. Mae data o'r math hwn wedi ei gyhoeddi yn galluogi ein Fforwm Atebolrwydd Cymunedau, cymunedau a grwpiausydd yn ymddiddori, i graffu ar ein gwaith a'n perfformiad mewn perthynas â chyfartaledd.

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir / Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
3.1	Adnabod, casglu a gwerthuso ansawdd a grymuster y data sydd wedi ei gaslgu eisoes – naill ai gan y CPS neu gan asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill megis yr heddlu neu'r llysoedd	√			Casglu a dadansoddi data
3.2	Cyhoeddi data perthnasol yn ôl yr amserlen a nodwyd a sicrhau ei fod mor hygyrch â phosibl	√	√	√	Data hygyrch, sydd yn cyfarfod anghenion cyfreithiol, wedi ei adnabod a'i gyhoeddi
3.3	Cymryd camau i lenwi bylchau amlwg mewn data, adnabod bylchau newydd mewn data a chreu cynllun oddi mewn i amserlen realistig i sicrhau bod unrhyw grwpiau data sydd yn bod eisoes, neu rai newydd, wedi eu hystyried a sylw wedi ei roi iddynt	√	√	√	Bylchau mewn data wedi eu hadnabod; y cynllun mewn lle

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir / Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
3.4	Parhau i wella'r broses, systemau ac effeithlonrwydd caslgu ac adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y manylion a gasglwyd yn berthnasol, amserol a grymus	√			Adolygiad blynyddol o'r broses o gasglu data Mesurau Cyffredinol: Adborth gan Fform Atebolrwydd Cymuned, cymunedau a phartïon sydd yn ymddiddori ar ansawdd a hygyrchedd data Bwrdd Cyfarwyddwyr yn Cytuno ar gynllun gweithredu parthed casglu data Datblygu a gweithredu Strategaeth Hygyrchedd y CPS yn llwyddiannus Gwelliant blynyddol ar y canran o staff sydd yn darparu data cynrychioli

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir / Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
Cwestiynau ymgynghori ar gyfer Amcan 3 • A yw'r amcan cydraddoldeb a nodir uchod mewn perthynas â chasglu a chyhoeddi data o ansawdd uchel yn addas ac yn berthnasol? • A yw'r dulliau gweithredu i gyrraedd y nod yn gywir? • A yw'r mesurau yn addas ac yn berthnasol? • A oes gennych chi sylwadau pellach?				

Amcan 4

I adnabod a thrafod achosion y gwahaniaethau mewn ymrwymiad a phrofiad staff gyda nodweddion gwarchodedig fel y tanlinellwyd gan arolygaeth thematig Gwasanaeth Erlyn y Goron ei Mawrhydi 2010 ar ganlyniadau arolwg staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth y CPS

Mae gan foddhad y bobl sydd yn darparu ein gwasanaeth erlyn effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig bod ein staff yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a bod dim anghyfartaledd direswm wrth ymdrin â pholisïau a phrosesau na phrofiadau'r staff a gyflogir gan y CPS.

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir /Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
4.1	Parhau i hybu ymarferion casglu data er mwyn gwella cywirdeb y data sydd yn cynrychioli'r staff	√	√	√	Ymarferion casglu data mewn lle ac yn arwain at gasglu data gwell
4.2	Parhau i fonitro a chyhoeddi data cydraddoldeb CPS sydd yn adnabod tueddiadau a gweithredu ar anghyfartaledd blynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb mewn Cyflogaeth	√			Cyhoeddi'r adroddiad mewn pryd
4.3	Cynnal adolygiad cyflogau cyfartal	√			Gweithredu argymhellion
4.4	Cydweithio gyda rhwydweithiau staff a fforymau i adnabod yr achosion a'r gweithredu sydd eu hangen i wella ymglymiad y staff â nodweddion	√			Y cydweithio wedi cwblhau a chytuno ar y gweithredu

Gweithredu Perthnasol		Amserlenni			Cerrig Milltir /Mesurau
		2011-12	2012-13	2013-14	
	gwarchodedig				
4.5	Adnewyddu ac ymestyn yr arweiniad Traws sydd mewn lle eisoes i reolwyr i gynnwys ymwybyddiaeth i'r holl staff	√			Dosbarthu a gweithredu'r arweiniad yn llwyddiannus
4.6	Adolygu hygyrchedd y Coleg Erlyniad a holl weithredu y CPS iT		√		Adolygiad wedi cwblhau – cynlluniau mewn lle
4.7	Adolygu strategaeth Eiriolaeth y Llysoedd Uwch er mwyn penderfynu ar achosion cyfradd methiant anghyfartal staff BME a chynnal EiA o broses asesu rheolaeth ansawdd Eiriolaeth	√			EiA wedi cwblhau – gweithredu'r argymhellion
4.8	Gweithredu argymhellion yr HMCPSi'au yn dilyn adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Cyflogaeth yn y CPS	√	√		Gweithredu cynlluniau yn llwyddiannus – eu monitro trwy Grŵp Llywio Cyflenwi Amrywiaeth
4.9	Parhau i weithredu Ymgyrch Urddas mewn Gwaith	√			Gweithredu'r ymgyrch
4.10	Cyflwyno Mesur Pobl i asesu perfformiad a chynyddu atebolrwydd ar gyfer gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y CPS	√			Cyflwyno Mesur Pobl yn llwyddiannus
4.11	Sicrhau delio yn effeithiol a chyflym gyda cheisiadau ar gyfer addasu rhesymol a bod absenoldebau oherwydd anabledd yn cael eu cofnodi ar wahân i absenoldeb oherwydd salwch	√	√	√	Gwirio samplau er mwyn sicrhau cysondeb

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir /Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
4.12 Parhau i hyfforddi'r holl staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth	√	√	√	Dadansoddi ffigyrau hyfforddiant a chanlyniadau gwerthuso Mesurau Cyffredinol: Cynnydd mewn boddhad cyflogaeth ymhlith grwpiau gwarchodedig Data ar gwynion, achwyniadau, tribiwnlysoedd Mwy o ymglymiad ymhlith y staff parthed arolwg y staff Gweithredu argymhellion yn sgil adolygiad HMCPSi'au ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Cyflogaeth

Cwestiynau ar gyfer Amcan 4

- A yw'r amcan cydraddoldeb fel y nodir uchod yn addas ac yn berthnasol ar gyfer adnabod ac ymdrin ag achosion y gwahaniaethau yn ymrwymiad a phrofiad staff gyda nodweddion gwarchodedig?

- A yw'r amcan yn glir ac a yw'n adewyrchu cyflogwr da ar gydraddoldeb ac amrywiaeth?

Gweithredu Perthnasol	Amserlenni			Cerrig Milltir /Mesurau
	2011-12	2012-13	2013-14	
• A yw'r deddfau i gyrraedd yr amcanion y rhai cywir ar gyfer gwasanaeth erlyn? • A yw'r mesurau yn addas ac yn berthnasol? • A oes gennych chi sylwadau pellach?				

Atodiad A Aelodaeth o Grŵp Ymgynghori Deddf Cydraddoldeb y CPS

(Rhan ddeiliaid Cymunedol a Staff Rhwydweithiau)

Hal Barraclough – Y Swyddfa Gartref a rhyw
Dolores Barrett – Cymdeithas Cenedlaethol Ddu Erlyn y Goron (NBCPA)
Mark Brookes – Gweithredu ar Werthoedd
Stephen Brookes, MBE – Ymgynghorydd ar Anabledd
Sam Dick - Stonewall
Deborah Gold - Galop
Suresh Grover/Yasmin Jaswal – Grwp Monitro
Philip Hall - CPS LGBT Rhwydwaith Staff
Pepper Harow – Sefydliad Dyneiddiol Prydain
Elizabeth Henry – Hil ar yr Agenda (ROTA)
Suzanne Humphreys - Rhwydwaith Staff Anabledd y CPS (DSN)
Doreen Lawrence – Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence
Norbert Marjolin – NSPCC
Pragna Patel - Southall Black Sisters (SBS)
Brian Pearce – Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU
Emma Scott – Hawliau Menywod
Kate Scott-Hughes - Rhwydwaith Staff CPS LGBT

Atodiad B Aelodaeth Fforwm Atebolrwydd Cymuned

(Rhan ddeiliaid Cymunedol a Staff Rhwydweithiau)

Dolores Barrett/Shakrat Alli – Cymdeithas Cenedlaethol Ddu Erlyn y Goron (NBCPA)
Mark Brookes – Gweithredu ar Werthoedd
Stephen Brookes, MBE – Ymgynghorydd ar Anabledd
Sam Dick - Stonewall
Deborah Gold - Galop
Philip Hall - CPS LGBT Rhwydwaith Staff
Suzanne Humphreys - Rhwydwaith Staff Anabledd y CPS (DSN)
Davina James-Hanman - AVA
Mervyn Kohler - Age UK
Doreen Lawrence – Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen Lawrence
Norbert Marjolin - NSPCC
Emma Scott – Hawliau Menywod
Kate Scott-Hughes - Rhwydwaith Staff CPS LGBT

Atodiad C Egluro'r termau a rhestr o'r talfyriadau

Datganiad Cyfathrebu Hygyrch (a enwyd yn strategaeth hygyrchedd gynt)	Mae'r datganiad hwn, sydd i'w gyhoeddi yn 2011, am osod allan beth mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ei wneud er mwyn hwyluso hygyrchedd gwybodaeth a chyfathrebu a'i wneud yn haws ei ddeall. Mae'r datganiad yn adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfartaledd.
Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb mewn Cyflogaeth	Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb mewn Cyflogaeth yn tanlinellu cynnydd y CPS wrth gyflwyno cyfartaledd positif mewn cyflogaeth.
Adolygiad Medrusrwydd	Adolygiadau o adrannau'r llywodraeth yw y rhain, wedi eu trefnu gan Swyddfa'r Cabinet. Yr amcan yw ystyried galluoedd adrannau'r llywodraeth, a'r arweinyddiaeth o fewn yr adrannau hynny, i gyflenwi eu gwasanaethau. Mae adolygiad eraill yn eu dilyn er mwyn sicrhau bod gwelliannu wedi eu gwneud yn sgil casgliadau'r adolygiadau cynt.
Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil	Arolwg blynyddol yw hwn o staff yn adrannau'r llywodraeth, mewn asiantaethau a chyrff anllywodraethol. Trwy ystyried agweddau staff a phrofiadau gwaith, gellir gwella arloesi, effeithlonrwydd a lles staff.
Fforwm Atebolrwydd Cymuned (CAF)	Mae'r CAF, sydd wedi ei greu trwy dynnu ynghyd partneriaid yn y cymunedau, cynrychiolwyr rhwydweithiau'r staff ac aelodau staff CPS yn cwrdd pob chwarter ac yn darparu dulliau craffu allanol ac atebolrwydd cymunedol ac mae'n fforwm ymgynghoriad ar gyfer polisïau a strategaethau y CPS.
Safonau Ansawdd Craidd (CQS)	Mae'r CQS yn nodi, mewn iaith glir, proses yr erlyniad a'r lefel o wasanaeth y gall partneriaid y CJS ac aelodau o'r cyhoedd ei ddisgwyl gan y CPS. Ceir rhestr gronolegol o'r safonau, o gyngor yn gynnar yn yr achos drwodd i'r apeliadau a'r cwynion a all ddilyn ar ddiwedd y trafodion. Mae CQS 12 yn ymwneud yn benodol ac ymglymiad cymunedol.
Datganiad Disgwyliadau Cydraddoldeb	Dyma ddatganiad a gytunwyd yn 2007 rhwng y CPS a'r Bar (bargyfreithwyr rydym yn troi atynt er mwyn cael eiriolwyr allanol i ymgymryd ag achosion llys) ynghylch yr hyn rydym yn Disgwyl i'r

ac Amrywiaeth y CPS ar gyfer y Bar	Siambrau mae'r Bargyfreithwyr hyn yn aelodau ohonynt i wneud ynghylch cydraddoldeb am amrywiaeth. Mae'r datganiad yn adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol parthed cydraddoldeb.
Ymgyrch Urddas mewn Gwaith	Bydd yr Ymgyrch Urddas mewn Gwaith yn canolbwyntio ar degwch a chynnwys ac yn egluro disgwyliadau'r sefydliad a'r holl aelodau o staff mewn perthynas â Bwlio ac Aflonyddwch ar draws pob grŵp a amddiffynnir.
Cyfathrebu uniongyrchol gyda Dioddefwyr	Mae angen cyfathrebu yn uniongyrchol gyda dioddefwr trosedd o fewn pum niwrnod os yw'r CPS yn penderfynu mewn perthynas â chyhuddiad neu os gwneir penderfyniad i newid cyhuddiad yn sylweddol. Yn ogystal â hyn, dylid trefnu cyfarfod âr dioddefwr mewn rhai achosion. Mae gwasanaethau ychwanegol ar gael i rai dioddefwyr bregus dan fygythiad, a dylid cysylltu â hwy o fewn un diwrnod gwaith o wneud y penderfyniad.
Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth	Ym mis Gorffennaf lansiwyd strategaeth newydd gan y gwasanaeth sifil ar gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth: 'Hybu Cydraddoldeb, Rhoi Gwerth ar Amrywiaeth'. Mae hwn yn gosod allan ardaloedd allweddol ar gyfer gweithredu sydd yn cynnwys: canolbwyntio ar dargedau; gweithredu i ymdrin ag ymddygiad a newid diwylliant; arweiniad ac atebolrwydd; a chynrychioli'r gweithlu. Mae pob adran o'r llywodraeth wedi cynhyrchu Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth sydd yn dangos sut y bydd pob adran yn cyflwyno'r strategaeth ar draws y gwasanaeth sifil. Dyma Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth yn y CPS. Mae'r Adran Waith a Phensiynau yn y broses o adolygu strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y gwasanaeth sifil, yn lle dogfen 2008 -11.
Grŵp Llywio'r Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth	Mae Grŵp Llywio'r Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Cyflwyno Amrywiaeth yn cael ei gyflwyno yn effeithiol (gan gynnwys agweddau cyflogaeth y Cynllun cydraddoldeb sengl) a bod yr hyn a gynhwysir ynddo yn cyfrannu at gyrraedd gweledigaeth y CPS ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Asesu effaith Cydraddoldeb	Pan fyddo'r CPS yn newid y ffordd mae'n gweithio trwy gyflwyno polisïau newydd neu ddulliau gweithredu newydd, neu try newid y polisïau sydd yn bodoli eisoes, byddwn yn ystyried sut gall y newidiadau hyn effeithio ar y grwpiau gwahanol yn y gymuned ac yn y gweithle. Os yw'r newidiadau yn debyg o gael effaith anfanteisiol ar Grŵp arbennig, dylid cymryd camau i ddelio gyda'r sefyllfa. Y broses o asesu'r effaith hon yw'r effaith asesu

	cydraddoldeb.
Rhyw	Fel y diffinnir gan ddeddfwriaeth fel cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac yn cynnwys ailbennu rhywedd. Gweler hefyd pobl Draws isod.
Troseddau casineb (cynnwys troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig, annog casineb ar sail hil a chrefydd, troseddau ar sail anabledd)	Disgrifir trosedd ar sail casineb fel unrhyw drosedd yn erbyn y dioddefwr sydd wedi ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, cred neu grefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu rhywedd. Gellir darllen yr adroddiad diweddaraf ar droseddau ar sail casineb ar gyfer 2008-09 ar http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/cydraddoldeb/mynegai.html Gellir darllen y Polisi ac Arweiniad ar droseddau a ysgogwyd gan hil neu grefydd ar http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/racerel.html http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/erlyn/racerel.html Gellir darllen y Polisi ac Arweiniad ar droseddau homoffobig neu drawsffobig ar http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/homophobia.html http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/erlyn/homoffobia.html Gellir darllen y Polisi ac Arweiniad ar droseddau a ysgogwyd gan anabledd yn http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/disability.html http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/erlyn//anabledd.html Ceir mynediad i'r 'Polisi ar erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn' drwy fynd i: http://www.cps.gov.uk/publications/docs/caop_policy.pdf http://www.cps.gov.uk/cyhoeddiadau/docs/caop.polisi.pdf
Cydlynwyr Troseddau Casineb	Mae gan y 13 Ardal Gydlynwyr Troseddau Casineb er mwyn sicrhau arweiniad ar droseddau casineb ac maent yn bwydo i mewn i gydlywodraethiad yr Ardal. Mae'r swyddogaeth yn cynnwys rheoli perfformiad, ymglymiad y gymuned a'r rhan ddeiliaid a gweithredu polisi.
LHD	Yn aml bydd pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol yn wynebu rhagfarn, aflonyddwch a thrais oherwydd eu tueddiadau rhywiol. Menyw sydd yn cael ei denu gan fenywod eraill yn gorfforol, yn rhywiol a/neu yn emosiynol yw lesbiad; mae dyn hoyw yn cael ei ddenu yn gorfforol, yn rhywiol a/neu yn emosiynol gan ddynion; mae pobl ddeurywiol, yn ddynion neu yn fenywod, sydd yn cael eu denu

	yn gorfforol, yn rhywiol a/neu yn emosiynol i ddynion a merched.
Paneli Archwilio ac Ymglymiad lleol (LSiP)	Er Ebrill 2011 mae'r Paneli Archwilio Troseddau Casineb a'r Paneli Ymglymiad Cymunedol wedi eu cyfuno er mwyn darparu archwiliad rhanbarthol o droseddau casineb ac achosion VAW. Defnyddir y gwersi a ddysgwyd i wella erlyniadau troseddau casineb ac achosion VAW. Mae'r LSiPau hefyd yn cynnig fforwm er mwyn ymgynghori ar bolisïau a strategaethau.
Monitro	Proses yw hon o gasglu data (ansoddol yn aml ond yn feintiol hefyd) er mwyn dysgu a yw'r ffordd yr ydym yn rhedeg ein gwasanaeth neu'r modd yr ydym yn trin ein staff yn creu anfanteision neu yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw Grŵp o gymunedau neu o gyflogai.
Panel Craffu Cenedlaethol	Yn ystod 2011-12 bydd y CPS yn trefnu Panel Craffu Cenedlaethol; trwy hwn bydd y Cyfarwyddwr yn galw'r panel ynghyd i ystyried materion systemig sydd yn effeithio ar berfformiad neu bolisi y CPS. Sefydliadau allanol cymunedol a staff y CPS fydd ar y Panel a byddant yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn perthynas â'r materion maent yn craffu arnynt.
Mesur y Bobl	Dangosydd yw Mesur y Bobl a ddefnyddir i fesur gwelliannau yn ein ffordd o arwain, rheoli ac ymrwymo staff.
Adolygiadau Datblygiad Perfformiad	Dyma'r system a ddefnyddiwyd gan y CPS i fesur perfformiad staff ac i gynllunio eu datblygiadau proffesiynol yn y dyfodol.
Y Coleg Erlyniad	Hwn yw'r porth mae staff y CPS yn ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad i ystod o fodylau e-ddysgu a chyrsiau.
Adran146	Adran146 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sydd yn nodi hyn – pan fyddo trosedd yn cael ei chyflawni wedi ei seilio ar elyniaeth tuag at anabledd neu anabledd tybiedig neu gyfeiriadedd rhywiol, bydd yn cael ei ystyried fel ffactor gwaethygol wrth ddedfrydu.
Mesurau Arbennig	Mae Deddf Cyfiawnder ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn caniatáu 'mesurau arbennig' i gefnogi tystion bregus neu dystion dan fygythiad wrth iddynt roi tystiolaeth. Am wybodaeth bellach ar ddefnyddio mesurau arbennig, byddwch cystal â dilyn y ddolen isod: http://www.justice.gov.uk/guidance/docs/achieving-best-evidence-criminal-proceedings.pdf

	http://www.cyfiawnder.gov.uk/arweiniad /docs/cael yr elyniadau troseddol gorau.pdf
Ymglymiad Staff	Mae ymglymiad cyflogai yn fesur busnes allweddol sydd yn mynd y tu hwnt i fesur sut boddhad staff yn unig: mmae hefyd yn ymdrin ag archwilio ymrwymiad ac eiriolaeth. Gellir diffinio ymglymiad staff fel parodrwydd a gallu cyflogai i fuddsoddi eu hymdrechion personol yn llwyddiant y sefydliad.
Mynegai ymglymiad staff	Caiff yr EEi – Mynegai Ymglymiad Staff ei benderfynu gan y nifer o gyflogi bodlon / cyfanswm y cyflogi yn yr arolwg *100
Prosiect rheoli rhan ddeiliaid strategol	Darparwyd y prosiect hwn er mwyn ystyried cydlynu'r cyswllt rhwng y CPS a'i holl randdeiliaid allweddol
Symleiddio'r broses	Bwriad y fenter hon yw sicrhau, mewn rhai achosion, wrth gymryd y camau cyn penderfynu ar y cyhuddiad, bod y gwaith papur a ddefnyddir i wneud y penderfyniadau hynny yn cael ei symleiddio tra ar yr un pryd yn parhau'n ddigonol ac yn gymesur.
Pobl Draws	Yn aml defnyddir y term 'pobl draws' neu 'bobl trawsryweddol' fel termau cyffredinol ar gyfer y bobl hynny â'u hunaniaeth rhywiol/ mynegiant rhywedd yn wahanol i'w rhywedd adeg eu geni, gan gynnwys pobl trawsrywiol (sydd yn bwriadu, neu yn y broses o ailbennu rhywedd er mwyn byw yn barhaol gyda'r rhywedd o'u dewis), pobl sy'n trawswisgo (y rhai hynny sydd yn gwisgo, naill ai yn achlysurol neu yn fwy rheolaidd, dillad a gysylltir yn draddodiadol gyda'r rhyw arall), androgyn/pobl amlryw y rhai hynny sydd heb hunaniaeth rhyw ac nad ydynt yn ystyried eu hunain yn wryw nac yn fenyw) ac eraill a ystyrir yn amrywiaethol o ran rhyw. (EHRC) Mae hunaniaeth rhyw a chyfeiriadedd rhywiol yn wahanol. Mae'n dilyn y gall person traws fod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeuryw neu'n gyfunrywiol. Ambell dro, cyfeirir at y bobol hyn fel aelodau o'r cymunedau LHDC, ond mae'n bwysig deall bod hunaniaeth rhyw rhywun a'u cyfeiriadedd rhywiol yn ddau fater gwahanol a gall yn materion sydd yn codi yn eu sill yn wahanol iawn hefyd.
Strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW)	Bwriad y strategaeth hon yw sicrhau cydlyniad a gwella adwaith erlyniad at rychwant o droseddau sydd yn disgyn dan ymbarél y term VAW. Hawliau dynol yw'r egwyddorion sydd yn tanategu datblygiad gwaith, gan dynnu ar gytundebau' Cenhedloedd Unedig mae'r DU wedi eu llofnodi a chadarnhau.

	Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar fenywod fel dioddefwyr, mae'r CPS yn ymwybodol y gall dynion ddioddef hefyd (megis mewn achosion o dreisio a thrais yn y cartref.) Bydd gan y dioddefwyr hyn yr un mynediad i amddiffyniad a thegwch cyfreithiol. . Mae VAW yn cynnwys y llinynnau canlynol: trais yn y cartref, aflonyddwch, treisio, troseddau rhyw, trais ar sail anrhydedd, priodi gorfodol, Enwaedu Benywod, masnachu mewn pobl, pornograffi, puteindra, a cham-drin plant. http://www.cps.gov.uk/publications/docs/vaw_strategy_english.pdf http://cps.gov.uk/cyhoeddiadau/docs/vaw_strategaeth_saesneg.pdf Gellir gweld yr adroddiad diweddaraf ar erlyn mewn achosion o drais yn erbyn mewnyod 2009/10 ar http://www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html http://cps.gov.uk/cyhoeddiadau/cydraddoldeb/vaw/index.html
Gwarant Trais yn erbyn Menywod (VAW)	Er mis Ionawr 2011, fel rhan o reolaeth Perfformiad Ardal, pob chwe mis mae Prif Erlynwyr y Goron yn cyflwyno adroddiadau gwarant i'r Prif Swyddog Gweithredu ar eu herlyniadau VAW; mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn adolygu'r cyfan. Mae hyn yn cysylltu gyda system Fonitro Safonau Ansawdd Craidd, sydd yn cwmpasu holl droseddau VAW gyda'r prif ffocws ar drais yn y cartref, treisio a throseddau rhyw. Mae'n cynnwys asesiad gwerthusol o bron 25% o erlyniadau treisio. Mae'r gwarant yn ymdrin ag unrhyw broblemau sydd wedi eu hadnabod gydag argymhellion ar gyfer datrysiadau a sylwadau ar unrhyw amrywiad fesul ardal y gwahanol heddluoedd, fel y bo'n addas
Cydlynwyr Trais yn erbyn Menywod (VAW)	Mae'r 13 Ardal wedi dethol Cydlynwyr VAW er mwyn sicrhau arweiniad yn eu gwaith ac i fwydo mewn i gydlywodraethu'r Ardal. Mae'r swyddogaeth yn cwmpasu rheolaeth perfformiad, ymglymiad cymunedol a rhanddeilaid a gweithredu polisi

Talfyriadau		
CAF	Community Accountability Forum	Fforwm Atebolrwydd Cymuned
CCP	Chief Crown Prosecutor	Prif Erlynydd y Goron
CPS	Crown Prosecution Service	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DV	Domestic Violence	Trais yn y cartref
HR	Human Resources	Adnoddau Dynol
SES	Single Equality Scheme	Cynllun Cydraddoldeb Sengl
VAW	Violence Against Women	Trais yn erbyn Menywod
WCU	Witness Care Unit	Uned Gofal Tystion
EiA	Equality impact Assessment	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb